TGAU

LLENYDDIAETH GYMRAEG
UNED 1: BARDDONIAETH

HAEN UWCH

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

1¼ awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 8 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.
Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn cyfan. Dangosir y marc mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r bardd yn rhoi darlun o le hyfryd.

Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges y cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi

Wrth ateb, **cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

Eifionydd

O olwg hagrwch Cynnydd
Ar wyneb trist y Gwaith
Mae bro rhwng môr a mynydd
Heb arni staen na chraith
Ond lle bu'r arad ar y ffridd
Yn rhwygo'r gwanwyn pêr o'r pridd.

Draw o ymryson ynfyd
Chwerw'r newyddfyd blin
Mae yno flas y cynfyd
Yn aros fel hen win.
Hen, hen yw murmur llawer man
Sydd rhwng dwy afon yn Rhos Lan.

A llonydd gorffenedig
Yw llonydd y Lôn Goed
O fwa'i tho plethedig
I'w glaslawr dan fy nhroed.
I lan na thref nid arwain ddim
Ond hynny nid yw ofid im.

O! mwyn yw cyrraedd canol
Y tawel gwmwd hwn,
O'm dyffryn diwydiannol
A dull y byd a wn;
A rhodio'i heddwch wrthyf f'hun
Neu gydag enaid hoff cytûn.

R. Williams Parry

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Yn y gerdd isod, mae'r bardd yn cofio yn ôl i'w blentyndod ac mae'n disgrifio diwrnod ar lan y môr yn y Mwmbwls yn Abertawe, ymhell o'i bentref genedigol a'r pyllau glo ym Mrynaman.

Glas

Pan oedd Sadyrnau'n las,
a môr yn Abertawe'n rhowlio chwerthin
ar y traeth,
roedd cychod a chestyll a chloc o flodau
yn llanw'r diwrnod;
a gyda lwc,
ymdeithiem yn y pensil coch o drên
a farciai hanner cylch ei drac
rownd rhimyn glas y bae
i bwynt y Mwmbwls.

Eisteddem ar y tywod twym
yn yfed y glesni,
ein llygaid newynog yn syllu'n awchus
ar fwrdd y môr.
Dilynem ddartiau gwyn y *gwylain aflonydd *mwy nag un gwylan*
yn trywanu targed y creigiau,
a sbiem yn syn
ar y llongau banana melyn o'r Gorllewin
a sglefriai'n ara' dros y gwydr glas,
a gorffwys dan y craeniau tal
a grafai'r wybren glir
uwchben Glandŵr.

Rhain oedd Sadyrnau'r syndod,
y dyddiau glas,
a ninnau'n ffoaduriaid undydd, brwd,
yn blasu'n rhyddid byr
o ddyffryn du,
*totalitariaeth glo. **rheolaeth lwyr*

Bryan Martin Davies

ⓗ WJEC CBAC Cyf.